

(YCHWANEGU LOGO'R HEDDLU)

# Ffurflen Gais Interim am Ddeunydd Trydydd Parti

## Cynnwys

Llythyr eglurhaol / e-bost at ddarparwr trydydd parti .....	2
Nodyn gwybodaeth i drydydd partiön ynghylch cydsyniad .....	3
Rhan 1: Ffurflen Gais am Ddeunydd Trydydd Parti .....	4
Rhan 1 Yr wybodaeth y gofynnir amdani .....	5
Rhan 1b: Barn yr Unigolyn .....	6
Rhan 1c: Awdurdod i Wneud Cais am Ddeunydd Trydydd Parti .....	8
Rhan 2: Ffurflen Ymateb Trydydd Parti .....	9

## Llythyr eglurhaol / e-bost at ddarparwr trydydd parti

Annwyl Syr/Fadam,

Mae hwn yn gais gan yr heddlu am fynediad at ddeunydd/gwybodaeth rwy'n credu sydd gennych chi, gan fod hyn wedi ei nodi fel trywydd ymholi rhesymol mewn ymchwiliad troseddol parhaus a chredir ei fod yn berthnasol i fater yn yr achos.

Mae paragraff 3.5 o God Ymarfer Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 (CPIA) yn datgan bod dyletswydd ar yr Heddlu i ddilyn pob trywydd ymholi rhesymol, pa un a yw'r rhain yn pwyntio tuag at unigolyn a amheuir ai peidio.

Yn hanner cyntaf y ffurflen gais, nodaf fy rhesymeg dros ofyn am yr wybodaeth hon. Rwyf hefyd yn egluro a fu'n briodol i mi roi gwybod i'r unigolyn cyn gwneud y cais hwn, ac os nad oedd, pam felly. Os yw'n briodol, mae'r ffurflen yn cynnwys barn yr unigolyn am y cais.

Llenwch ail hanner y ffurflen i ymateb i'r cais, gan gadarnhau a yw'r deunydd hwn yn eich meddiant ai peidio. Gan nad wyf yn adolygu'r holl gofnodion, a wnewch chi roi'n wirfoddol unrhyw wybodaeth nad wyf wedi ei nodi, ond a allai fod yn berthnasol ar sail yr amgylchiadau a ddarperir gennyf yn y ffurflen hon.

Unwaith y byddaf yn meddu ar y deunydd a ddarparwyd, dim ond wrth gyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol y bydd yn cael ei rannu â phartion eraill. Yng nghyd-destun yr ymchwiliad troseddol hwn, mae'n debyg mai Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr amddiffyniad, y cwnsler a'r llysoedd fydd y partion hynny.

Os gwrthodir mynediad, dylid cadw'r deunydd rhag ofn y bydd y llys yn gofyn am ddatgelu rhywfaint neu'r cyfan o'r deunydd.

Os oes gennych chi ymholiadau am rannu gwybodaeth â'r Heddlu, ewch i [Sharing personal data with law enforcement authorities | ICO](#) neu [Data sharing information hub | ICO](#)

Yn gywir,

Enw	
-----	--

# Nodyn gwybodaeth i drydydd partïon ynghylch cydsyniad

## Pam nad yw'r heddlu wedi gofyn am ganiatâd yr unigolyn ar gyfer y cais am TPM?

Mae Barn y Comisiynydd Gwybodaeth yn egluro nad yw dibynnu ar gydsyniad y dioddefwr wrth gyfiawnhau prosesu ei ddata yn debygol o gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data<sup>1</sup>.

Y rheswm am hyn yw bod anawsterau o ran sicrhau cydsyniad dilys, rhydd gan unigolion mewn ymchwiliad - er enghraifft, oherwydd anghydbwysedd pŵer canfyddedig neu drawma mae'r unigolyn wedi ei ddiodef.

Mae'n ofynnol i ymchwilyr weithio gydag unigolion ac ymgynghori â nhw, ac felly bydd eu safbwyntiau a'u gwrthwynebiadau wedi cael eu ceisio a'u cofnodi. Bydd y rhain yn cael eu hystyried gan ymchwilyr wrth gydbwyso budd y cyhoedd o gael y deunydd yn erbyn yr effaith ganlyniadol ar breifatrwydd y dioddefwyr<sup>2</sup>.

Mae'n rhaid i drydydd partïon ystyried y sail gyfreithiol dros rannu gwybodaeth â'r heddlu. Chi, y sefydliad, sydd i benderfynu ar y sail gyfreithiol ond, yng nghyd-destun ymchwiliad troseddol, mae hyn yn debygol o fod yn Erthygl 6(f) ("buddiannau cyfreithlon")<sup>3</sup>. Mae'n bosibl yr hoffech gyfeirio at [Legitimate Interests Assessment](#) Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Os ydych chi'n dal yn ansicr, mae'r pecyn cymorth a ganlyn gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rhoi arweiniad ynghylch a ddylid rhannu data ai peidio: [Can I share personal data with a law enforcement authority, such as the police? | ICO](#)

Mae rhagor o wybodaeth ac arweiniad ar gael yn:

- Hyb gwybodaeth rhannu data Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: <https://ico.org.uk/for-organisations/data-sharing-information-hub/>
- Canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar rannu data personol ag awdurdodau gorfodi'r gyfraith: [Sharing personal data with law enforcement authorities | ICO](#)

<sup>1</sup> [commissioners-opinion-whos-under-investigation-20220531.pdf \(ico.org.uk\)](#)

<sup>2</sup> [commissioners-opinion-whos-under-investigation-20220531.pdf \(ico.org.uk\)](#)

<sup>3</sup> [commissioners-opinion-whos-under-investigation-20220531.pdf \(ico.org.uk\)](#)

## Rhan 1: Ffurflen Gais am Ddeunydd Trydydd Parti

(Mae'r adran hon yn rhoi manylion ynghylch pwy mae'r deunydd trydydd parti yn ymwneud â nhw a manylion y swyddog ymchwilio)

**Cyfeiriwch at y Cwestiynau Cyffredin ar gyfer swyddogion a/neu unigolion i gael rhagor o arweiniad**

Trydydd Parti (deiliad yr wybodaeth / deunydd)

Unigolyn (Unigolyn y mae'r cofnodion yn ymwneud ag ef/hi)			
Enw		Dyddiad Geni	
Cyfeiriad			
Gwybodaeth arall i helpu i adnabod y deunydd a ddelir Er enghraifft, achosion cysylltiedig hysbys, cyfeiriadau, enwau blaenorol, neu gyfeiriadau / lleoliadau.			
Mewn perthynas â'r ymchwiliad troseddol hwn, mae'r unigolyn yn...		(Dewiswch eitem)	
Os Arall, nodwch:			
Rhif adroddiad trosedd:			

Manylion y Swyddog	
Enw a Rhif Gwarant / FIN	
Gorsaf / Adran / Tîm	
Cyfeiriad e-bost	
Rhif ffôn	
Dyddiad ac amser llenwi'r ffurflen:	
Unrhyw ddyddiad cau penodol ar gyfer derbyn y deunydd:	
Pam mae angen y deunydd erbyn y dyddiad cau hwn:	
<input type="checkbox"/> Rwy'n deall bod yn rhaid darparu copi o'r ffurflen hon hyd at yr adran Safbwyntiau Unigol i'r unigolyn os ydynt wedi cael gwybod am y cais.	
<input type="checkbox"/> Rwy'n deall bod yn rhaid llenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob trydydd parti.	

## Rhan 1a: Yr wybodaeth y gofynnir amdani

(Mae'r adran hon yn egluro pa ddeunydd trydydd parti sy'n cael ei geisio, pam mae'n cael ei geisio, a pham ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur ei gael ar gyfer yr ymchwiliad/pwrpas)

### Y deunydd trydydd parti y gofynnir amdano: (Dewiswch un)

(Dewiswch eitem.)

☐ Os Arall, nodwch: .....

### Amgylchiadau'r ymchwiliad a pham mae adolygu'r deunydd trydydd parti y gofynnwyd amdano yn drywydd ymholi rhesymol ac yn berthnasol i fater yn yr achos:

Esbonio'r trosedd(au) sy'n destun ymchwiliad a'r amgylchiadau.

Eglurwch pam eich bod o'r farn bod adolygu'r deunydd trydydd parti yn drywydd ymholi rhesymol a sut mae hyn yn berthnasol i fater yn yr achos.

Rhaid cael sail benodol ar gyfer y gred hon, nid dim ond dyfalu. (Gweler tudalennau 9 – 12 o Ganllawiau'r Twrnai Cyffredinol ar Ddatgelu am arweiniad pellach)

### Y paramedrau perthnasol i'r deunydd sy'n cael ei geisio:

Paramedrau dyddiad / amser y deunydd a geisir. Sicrhewch eich bod chi'n teilwra'r cyfnod amser neu'r meysydd i ffeithiau'r achos, ac nid dim ond gofyn am yr holl gofnodion sydd gan y darparwr.

Unrhyw baramedrau eraill a fydd yn helpu'r darparwr i dargedu'r deunydd penodol sydd ei angen arnoch.

### Y rheswm pam mae'n gwbl angenrheidiol a chymesur ceisio'r deunydd personol:

Esbonio sut mae cyfiawnhad dros ymyrryd â phreifatrwydd a pha ddulliau eraill llai ymwithiol o gael yr wybodaeth hon sydd wedi cael eu hystyried, ac os ydynt ar gael, pam nad yw'n ymarferol eu defnyddio.

Nodi sut bydd yr wybodaeth yn cael ei hadolygu er mwyn lleihau ymyrraeth, ac eto sicrhau bod yr wybodaeth yn ddigonol. (Gweler tudalennau 46 – 47 o Ganllawiau'r Twrnai Cyffredinol ar Ddatgelu am arweiniad pellach)

## Rhan 1b: Barn yr Unigolyn

(Mae'r adran hon yn nodi a oes gan yr unigolyn unrhyw farn neu wrthwynebiad i'r cais)

Ni Chafwyd Barn yr Unigolyn	
<input type="checkbox"/>	<b>Ni ddylid rhoi gwybod i'r unigolyn am y cais hwn oherwydd byddai hyn yn debygol o beryglu'r ymchwiliad.</b>
	Esboniwch pam y byddai hyn yn rhagfarnu'r ymchwiliad.
<input type="checkbox"/>	<b>Cysylltwyd â'r unigolyn ac nid oedd yn dymuno trafod safbwyntiau na gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r cais hwn gyda'r heddlu.</b>
	Dylech gynnwys beth rydych chi'n ei feddwl am hyn, gan gynnwys unrhyw reswm pam rydych chi o'r farn nad oedd yr unigolyn yn dymuno ymgysylltu.
	<input type="checkbox"/> Mae'r unigolyn yn fodlon i'r trydydd parti gysylltu ag ef/hi. Y dull a'r manylion cyswllt sy'n cael eu ffafrio: .....
	<input type="checkbox"/> Nid yw'r unigolyn yn dymuno i'r trydydd parti gysylltu ag ef/hi.
	<input type="checkbox"/> Nid yw barn yr unigolyn ynghylch cyswllt gan y trydydd parti yn hysbys i'r heddlu.
<input type="checkbox"/>	<b>Nid oedd modd dod o hyd i'r unigolyn.</b>

– NEU –

Barn yr Unigolyn	
Cofiwch, nid yw'r unigolyn yn rhoi caniatâd na chytundeb. Disgrifiwch <u>farn</u> yr unigolyn am y cais sy'n cael ei wneud, gan gynnwys unrhyw wrthwynebiad.	
Datganiad gan yr Unigolyn	
Rwy'n deall nad oes gofyn i mi roi cydsyniad na chytundeb ar gyfer y cais hwn, ond rwy'n deall bod gennyf yr hawl i roi fy marn am y cais i fy nata personol gael ei gofnodi, ac rwy'n fodlon ar sut mae'n cael ei gofnodi ar y ffurflen hon. Rwyf wedi cael cymorth i ddeall y cais ac rwy'n deall y byddaf yn cael copi o'r ffurflen hon a thaflen Cwestiynau Cyffredin sy'n cynnwys manylion asiantaethau cymorth.	
<b>Cyswllt gan y Trydydd Parti</b>	<input type="checkbox"/> Rwy'n fodlon i'r trydydd parti gysylltu â mi. Y dull a'r manylion cyswllt sy'n cael eu ffafrio: .....

[SWYDDOGOL – ar ôl cwblhau]

	<input type="checkbox"/> Nid wyf yn fodlon i'r trydydd parti gysylltu â mi.
<b>Llofnod yr unigolyn</b>	
<b>Amser / dyddiad</b>	
<b>Enw'r oedolyn cyfrifol</b>	
<b>Llofnod yr oedolyn cyfrifol</b>	
<b>Amser / dyddiad</b>	

DRAFT

**Barn y swyddog ymchwilio (rhaid llenwi hwn os bydd safbwyntiau'r unigolyn yn cael eu darparu)**

Disgrifiwch sut mae barn yr unigolyn yn effeithio ar eich angen i gael y data personol. Mae hyn yn arbennig o angenrheidiol os nad yw'r unigolyn am i'r trydydd parti rannu unrhyw ddata neu'r holl ddata y gofynnwyd amdano. Rhaid i chi gyfiawnhau pam fod eich angen am y data yn drech na hawl yr unigolyn i breifatrwydd.

**Rhan 1c: Awdurdod i Ofyn am Ddeunydd Trydydd Parti**

Er mwyn sicrhau ein bod yn ceisio cael mynediad at ddeunydd trydydd parti i fynd ar drywydd ymholi rhesymol, mae'r cais hwn wedi cael ei gadarnhau gan Arolygydd neu aelod cyfatebol o staff yr Heddlu.

**Rwyf i, yn rhinwedd fy swydd fel Arolygydd neu aelod cyfatebol o staff yr Heddlu, wedi ystyried y canlynol mewn perthynas â'r awdurdodiad hwn:**

- ☐ Mae'r ffurflen wedi ei llenwi'n gywir ac mae'n cynnwys yr wybodaeth a'r ystyriaethau angenrheidiol.
- ☐ Mae'r cais yn drywydd ymholi rhesymol, ac mae angen adolygu'r deunydd trydydd parti gan fod hyn wedi cael ei nodi fel un sy'n berthnasol i fater yn yr achos.
- ☐ Mae dulliau llai ymwithiol o gael yr wybodaeth ofynnol wedi cael eu hystyried yn briodol, a lle bo hynny'n cael ei atal, rhoddir esboniad priodol.
- ☐ A ddarparwyd y cymorth priodol i'r unigolyn er mwyn i mi fod yn hyderus bod yr unigolyn a oedd yn rhoi ei farn yn deall y cais yn llawn.
- ☐ Lle mae unrhyw wrthwynebiad wedi ei godi, mae'r cais yn dal yn angenrheidiol ac yn gymesur.

Ar ôl ystyried yr uchod,

☐ Rwy'n awdurdodi'r cais hwn am ddeunydd trydydd parti

☐ Rwy'n gwrthod y cais hwn am ddeunydd trydydd parti\*

Rheswm dros wrthod:

(\*Os caiff ei wrthod, dychwelwch y ffurflen i'r swyddog ymchwilio, ac esboniwch y rhesymau pam. Dylai'r swyddog ymchwilio gadw copi o'r ffurflen a wrthodwyd yn ffeil yr achos)

Enw

Rhif Gwarant /  
FIN

Llofnod

Dyddiad



## Rhan 2: Ffurflen Ymateb Trydydd Parti

Ymateb Trydydd Parti	
<input type="checkbox"/>	Nid oes gennym yr wybodaeth y gofynnwyd amdani
<input type="checkbox"/>	Rydym yn cadw rhywfaint / y cyfan o'r wybodaeth y gofynnir amdani ac: <i>(dewiswch un)</i> <ul style="list-style-type: none"> <li><input type="checkbox"/> rydym yn datgelu'r cyfan</li> <li><input type="checkbox"/> rydym yn datgelu rhywfaint ohono</li> <li><input type="checkbox"/> nid ydym yn datgelu dim ohono</li> <li><input type="checkbox"/> Arall. Rhwch fanylion: .....</li> </ul>
Yr unigolyn <b>(Dewiswch eitem)</b>	

Disgrifiad o'r deunydd i'w ddatgelu (os o gwbl)
Dylech gynnwys paramedrau dyddiad unrhyw ddeunydd a ddelir.
DRAFT

Rhesymau dros beidio â datgelu'r holl ddata personol neu ran ohono
Dylech gynnwys, os yw'n berthnasol, pa wybodaeth ychwanegol allai eich helpu i ailystyried y cais.

Bydd y data personol yn cael ei ddarparu	
<input type="checkbox"/> i'w gweld yn ein lleoliad <input type="checkbox"/> wrth i chi gasglu copi yn bersonol Cyfeiriad:	<input type="checkbox"/> drwy e-bost diogel <input type="checkbox"/> drwy'r post (anfon drwy wasanaeth llofnodi)
<input type="checkbox"/> drwy ddull arall. Disgrifiwch:	

Cyfarwyddiadau trin a thrafod	
<input type="checkbox"/>	Gellir rhannu'r deunydd a ddarperir gyda'r amddiffyniad ar ôl golygu'n briodol ar gyfer perthnasedd a Diogelu Data.
<input type="checkbox"/>	Byddai rhywfaint neu'r cyfan o'r deunydd yn gofyn am waith golygu penodol ar gyfer sensitifrwydd cyn y gellid ei rannu â'r amddiffyniad, uwchlaw Diogelu Data. Gellid cyflawni hyn drwy drafodaeth rhwng asiantaethau.
<input type="checkbox"/>	Nid oes dim o'r deunydd yn addas i'w rannu â'r amddiffyniad, beth bynnag fo'r gwaith golygu a wnaed, ac felly dylid ei ddosbarthu fel deunydd Sensitif o dan y CPIA.
<b>Amlinellwch y rhesymeg dros hyn isod.</b> Mewn achosion lle asesir bod deunydd trydydd parti sensitif a ddarperir yn bodloni'r Prawf Datgelu dan CPIA (yr ystyrir yn rhesymol y gallai danseilio achos yr erlyniad neu gynorthwyo'r amddiffyniad), ystyrir y safbwyntiau hyn a, lle bo angen, gwneir cais am Wrandawriad Imiwnedd er Lles y Cyhoedd i atal datgelu deunydd o'r fath i'r amddiffyniad.	
Disgrifiwch amodau ychwanegol ar gyfer trin neu rannu data, neu amodau o ran trin, rhannu, storio neu ddychwelyd y deunydd lle bo hynny'n berthnasol.	

Sylwadau ychwanegol
Disgrifiwch a oes data nad oes cais amdano'n benodol, ond a allai fod yn briodol i'w ddatgelu ar sail cyd-destun y cais, neu unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu. Rhowch sail resymegol dros unrhyw ddata a ddarparwyd.

Sail Gyfreithlon Trydydd Parti ar gyfer datgelu
<b>Data Personol – mae'r datgeliad yn gyfreithlon oherwydd bod y canlynol yn berthnasol:</b>
<input type="checkbox"/> Angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol mae'r rheolydd yn ddarostyngedig iddi; <b>Erthygl 6(1)(c)</b> o Ddeddf Diogelu Data 2018
<input type="checkbox"/> Mae gwrthrych y data wedi cydsynio i'w ddata personol ef neu hi gael ei brosesu at un neu fwy o ddibenion penodol <b>Erthygl 6(1)(a)</b> o Ddeddf Diogelu Data 2018
<input type="checkbox"/> Angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau hanfodol gwrthrych y data neu unigolyn naturiol arall; <b>Erthygl 6(1)(d)</b> o Ddeddf Diogelu Data 2018
<input type="checkbox"/> Angenrheidiol ar gyfer tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd - <b>Erthygl 6(1)(e)</b> o Ddeddf Diogelu Data 2018
<input type="checkbox"/> Angenrheidiol ar gyfer y buddiannau cyfreithiol a ddilynnir gan y rheolydd data neu drydydd parti arall (yr heddlu) - <b>Erthygl 6(1)(f)</b> o Ddeddf Diogelu Data 2018

**Data Categori Arbennig – y datgeliad yw:**

- ☐ Dim i'w ddatgelu
- ☐ Angenrheidiol am resymau o fudd sylweddol i'r cyhoedd ac ar sail y gyfraith - Erthygl 9(2)(g) o Ddeddf Diogelu Data 2018
- ☐ Arall. Rhwch fanylion: .....

**ac rydym yn bodloni amod Rhan 2 Atodlen 1 Deddf Diogelu Data 2018, sef:**

- ☐ Atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon
- ☐ Atal twyll
- ☐ Amheuaeth o gyllido terfysgaeth a gwyngalchu arian
- ☐ Diogelu plant ac unigolion sydd mewn perygl

**Data Troseddol – y datgeliad hwn yw:**

- ☐ Dim i'w ddatgelu
- ☐ Estyn amodau yn Rhan 2 o'r Atodlen hon sy'n cyfeirio at fuddiant cyhoeddus sylweddol. Mae'r amod hwn yn cael ei fodloni os byddai'r prosesu'n bodloni amod yn Rhan 2 o'r Atodlen hon ond bod gofyniad penodol i'r prosesu fod yn angenrheidiol am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd.
- ☐ Rydym **yn bodloni un o amodau Atodlen 1 Deddf Diogelu Data 2018: Rhan 2** ar gyfer y datgeliad (nad oes angen budd sylweddol i'r cyhoedd wrth ei ddefnyddio ar gyfer prosesu data troseddau)\* (*dewiswch un*)
  - ☐ **atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon\***
  - ☐ **atal twyll\***
  - ☐ **amheuaeth o gyllido terfysgaeth a gwyngalchu arian\***
  - ☐ **diogelu plant ac unigolion sydd mewn perygl\***
  - ☐ **arall\*** (*os ydych chi'n dibynnu ar gyflwr gwahanol, gofynnwch am arweiniad gan y Tîm Rheoli Gwybodaeth a/neu'r gwasanaethau cyfreithiol*): Rhwch fanylion DPA 2018 Atodlen 1: Rhan 2 y bodlonwyd yr amod
  - ☐ **arall\*** (*os ydych chi'n dibynnu ar gyflwr gwahanol, gofynnwch am arweiniad gan y Tîm Rheoli Gwybodaeth a/neu'r gwasanaethau cyfreithiol*): Rhwch fanylion pa amod ychwanegol sy'n berthnasol

Yn gywir,

<b>Enw</b>	
<b>Rhif Cyswllt</b>	
<b>E-bost Cyswllt</b>	
<b>Dyddiad cwblhau</b>	